

Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

---

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Pysgodfeydd

Mai 2020



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan Senedd Cymru: **[www.senedd.cymru/SeneddDCC](http://www.senedd.cymru/SeneddDCC)**

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **[SeneddDCC@senedd.cymru](mailto:SeneddDCC@senedd.cymru)**

Twitter: **[@SeneddDCC](https://twitter.com/SeneddDCC)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Pysgodfeydd

Mai 2020



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 15 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:  
[www.senedd.cymru/SeneddDCC](http://www.senedd.cymru/SeneddDCC)

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Mick Antoniw AS**  
Llafur Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Suzy Davies AS**  
Ceidwadwyr Cymreig



**Carwyn Jones AS**  
Llafur Cymru



**Dai Lloyd AS**  
Plaid Cymru

---

## Cynnwys

<b>1. Y cefndir.....</b>	<b>5</b>
Bil Pysgodfeydd Llywodraeth y DU 2017-2019 .....	5
Bil Pysgodfeydd Llywodraeth y DU 2019-2021 .....	6
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru .....	7
<b>2. Trafodaeth y Pwyllgor.....</b>	<b>9</b>
Dull gweithredu a fframweithiau cyffredin ledled y DU .....	9
Bil Pysgodfeydd i Gymru.....	10
Darpariaethau machlud.....	12
Cymal 23 - Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd pysgota.....	14
Pwerau dirprwyedig a gwneud rheoliadau a osodir gerbron y Senedd.....	20
Diwygiadau pellach i Fil y DU .....	25
Ein barn ni .....	26



# 1. Y cefndir

## Bil Pysgodfeydd Llywodraeth y DU 2017-2019

1. Cafodd Bil Pysgodfeydd 2017-19 (Bil 2017-19) ei gyflwyno yn Senedd y DU ym mis Hydref 2018, a chafodd ei ddiwygio yn dilyn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol<sup>1</sup> a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol<sup>2</sup> yn y Senedd gan Lywodraeth Cymru ar 15 Tachwedd 2018 a 10 Ionawr 2019, yn y drefn honno. Yn sgil diddymu Senedd y DU ar gyfer Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Rhagfyr 2019, syrthiodd Bil Pysgodfeydd 2017-19.
2. Gwnaethom adrodd ar Fil 2017-19 ar 12 Chwefror 2019.<sup>3</sup>
3. Yn yr adroddiad hwnnw, gwnaethom saith argymhelliad, gan ddod i'r casgliad a ganlyn:

“...roedd diffyg eglurder yn nhystiolaeth y Gweinidog. O ganlyniad, mae'n cynnwys lefel o ansicrwydd ynghylch faint y mae Llywodraeth Cymru mewn rheolaeth, ac felly'n ceisio dylanwadu ar ddeddfwriaeth bwysig a fydd yn effeithio ar Gymru yn y dyfodol.”<sup>4</sup>
4. Ymatebodd Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (y Gweinidog), i'r adroddiad hwnnw ar 27 Mawrth 2019.<sup>5</sup>

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Pysgodfeydd](#), Tachwedd 2018

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 2\) y Bil Pysgodfeydd](#), Ionawr 2019

<sup>3</sup> [Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Pysgodfeydd, Chwefror 2019](#)

<sup>4</sup> Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Pysgodfeydd, paragraff 121

<sup>5</sup> [Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig](#), 27 Mawrth 2019

---

## Bil Pysgodfeydd Llywodraeth y DU 2019-2021

5. Cafodd Bil Pysgodfeydd Llywodraeth y DU<sup>6</sup> (y Bil) ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi, a chafodd ei ddarllenid cyntaf ar 29 Ionawr 2020. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.
6. Nod y Bil yw darparu fframwaith cyfreithiol i'r Deyrnas Unedig weithredu o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr (UNCLOS) (y Confensiwn ar Gyfraith y Môr) mewn perthynas â gweithgarwch pysgota ym Mharth Economaidd Unigryw y DU ar ôl i'r DU ymadael â Pholisi Pysgodfeydd Cyffredin yr UE.
7. Mae'r nodiadau esboniadol i'r Bil (fel y'i cyflwynwyd) hefyd yn nodi:

“The Bill creates common approaches to fisheries management between the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs (the “Secretary of State”) and the Devolved Administrations, known collectively as the Fisheries Administrations, and makes reforms to fisheries management in England. It also confers additional powers on the Marine Management Organisation (“the MMO”) to improve the regulation of fishing and the marine environment in the UK and beyond.”<sup>7</sup>
8. Mae'r Bil yn debyg i Fil 2017-19, er bod rhai cymalau yn wahanol a chymalau eraill wedi'u hailstrwythuro. Mae'r newidiadau allweddol sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd yn cynnwys:
  - newidiadau i'r amcanion pysgodfeydd;
  - newidiadau i'r darpariaethau ar gyfer datganiadau pysgodfeydd ar y cyd;
  - pŵer ychwanegol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fyddai'n caniatáu gwerthu hawliau ar gyfer cwotâu dal a chwotâu ymdrech Cymru;
  - pwerau ehangach o ran cymorth ariannol;

---

<sup>6</sup> [Bil Pysgodfeydd 2019-21 \[HL 71\]](#)

<sup>7</sup> [Y Bil Pysgodfeydd: Nodiadau Esboniadol](#), Ionawr 2020

---



- pŵer ychwanegol i Weinidogion Cymru godi ffioedd am gyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â rheoleiddio gweithgareddau morol.

**9.** Mae'r Bil hefyd yn cynnwys amcanion pysgodfeydd newydd, gofynion o ran paratoi a chyhoeddi cynlluniau rheoli pysgodfeydd, a phwerau ychwanegol i Weinidogion Cymru.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**10.** Ar 12 Chwefror 2020, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol<sup>8</sup> ar gyfer y Bil gerbron y Senedd.

**11.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (y Pwyllgor) a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig adrodd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol erbyn 24 Ebrill 2020.<sup>9</sup> Yn dilyn hynny, cafodd y dyddiad cau ei ymestyn gan y Pwyllgor Busnes i 21 Mai 2020.<sup>10</sup>

**12.** Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn nodi:

“Mae'r Bil hefyd, ar gais Llywodraeth Cymru, yn cynnwys pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru.”<sup>11</sup>

**13.** Nid yw'r pwerau a ddarperir i Weinidogion Cymru gan y Bil yn gyfyngedig o ran amser, gan nad oes cymal machlud wedi'i gynnwys yn y Bil ar hyn o bryd.

**14.** Mae paragraffau 7 i 47 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ba ddarpariaethau yn y Bil y bydd angen cydsyniad yn eu cylch. Mae paragraffau 48 i 50 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ba ddarpariaethau yn y Bil na fydd angen cydsyniad yn eu cylch.

**15.** Mae paragraffau 51 i 56 o'r Memorandwm yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru pam ei bod yn briodol cynnwys darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil. Yn benodol, mae'n dweud:

---

<sup>8</sup> Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Pysgodfeydd](#), Chwefror 2020

<sup>9</sup> Adroddiad gan y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Pysgodfeydd 2020](#), Chwefror 2020

<sup>10</sup> Adroddiad gan y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Pysgodfeydd 2020](#), Ebrill 2020

<sup>11</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 6

---

“Rydym yn croesawu cynnwys Cymal 43 sy’n estyn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ar gyfer materion sy’n ymwneud â physgodfeydd y tu hwnt i Gymru, ym mharth Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod cymhwysedd y Cynulliad yn unol â chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.”<sup>12</sup>

**16.** Mae’r Memorandwm yn ychwanegu bod “Llywodraeth Cymru yn cefnogi’r Bil fel y’i drafftiwyd”,<sup>13</sup> ac yn datgan y casgliad a ganlyn:

“Mae Llywodraeth Cymru o’r farn ei bod yn briodol ymdrin â’r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU oherwydd bod angen gweithredu ar lefel y DU gyfan er mwyn creu’r Fframwaith Pysgodfeydd. Dim ond mewn Bil gan Senedd y DU y gellir gwneud hynny. Mae’r Bil hwn hefyd yn cynnwys nifer o ddarpariaethau y bydd yn rhaid eu gosod cyn diwedd y cyfnod gweithredu. Ar gyfer pwerau nad ydynt yn ymwneud â fframwaith, mae’n bwysig bod Gweinidogion Cymru yn gallu gweithredu’n gyflym ac mewn ffordd bendant yng Nghymru, hyd nes y gallwn gyflwyno Bil Pysgodfeydd cynhwysfawr ar gyfer Cymru.”<sup>14</sup>

---

<sup>12</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 52

<sup>13</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 52

<sup>14</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 58

---

## 2. Trafodaeth y Pwyllgor

**17.** Clywsom dystiolaeth gan y Gweinidog yn ystod ein cyfarfod ar 16 Mawrth 2020.<sup>15</sup>

### Dull gweithredu a fframweithiau cyffredin ledled y DU

**18.** Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn datgan:

“Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU oherwydd bod angen gweithredu ar lefel y DU gyfan er mwyn creu'r Fframwaith Pysgodfeydd. Dim ond mewn Bil gan Senedd y DU y gellir gwneud hynny. Mae'r Bil hwn hefyd yn cynnwys nifer o ddarpariaethau y bydd yn rhaid eu gosod cyn diwedd y cyfnod gweithredu. Ar gyfer pwerau nad ydynt yn ymwneud â fframwaith, mae'n bwysig bod Gweinidogion Cymru yn gallu gweithredu'n gyflym ac mewn ffordd bendant yng Nghymru, hyd nes y gallwn gyflwyno Bil Pysgodfeydd cynhwysfawr ar gyfer Cymru.”<sup>16</sup>

**19.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am y gwahaniaethau rhwng y Bil dan sylw a Bil 2017-19. Dywedodd y Gweinidog:

“I suppose we've got everything we've asked for. The main addition is the inclusion of the provisions in relation to the extension of the legislative competence for this place, in relation to the Welsh zone.

We've also further strengthened the fisheries objectives, the relationship between the joint fishing statement and the Secretary of State's fisheries statement, and the inclusion of the fisheries management plan.”<sup>17</sup>

**20.** Yn sgil y ffaith bod y Gweinidog wedi dweud bod Llywodraeth Cymru wedi cael popeth y gofynnodd amdano, gwnaethom ofyn iddi a oedd hi'n fodlon â

---

<sup>15</sup> [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020](#)

<sup>16</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 58

<sup>17</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [31-32]

chyfraniad Llywodraeth Cymru at y broses o ddrafftio'r Bil. Dywedodd y Gweinidog:

“Yes, I think, certainly at a ministerial level—obviously, George Eustice was the Minister of State, he is now the Secretary of State, and we have a very good relationship, and, at an official level, you’ll be very well aware of the relationship, for many years, with the fisheries department.”<sup>18</sup>

**21.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog a oedd hi'n fodlon bod yr holl ddarpariaethau yn y Bil cyfredol yn angenrheidiol, ac a oedd hi'n fodlon y byddai'r darpariaethau hyn yn effeithiol o ran sefydlu fframwaith cyffredin ledled y DU. Dywedodd wrthym:

“Yes, we are. We think this Bill creates the primary legislative elements of the UK framework for fisheries management and support. It also provides a uniform set of powers, obligations and objectives. The common framework powers relate to fisheries objectives, joint fisheries statements and the fisheries management plans and the access and licensing provisions.”<sup>19</sup>

**22.** Gwnaethom archwilio'r mater hwn ymhellach, gan ofyn i'r Gweinidog pam ei bod o'r farn bod angen fframwaith cyffredin ar gyfer pysgodfeydd. Dywedodd y Gweinidog:

“It’s an interim measure until we can bring forward our own Welsh fisheries Bill. So, until this UK Bill is passed, within the current devolution arrangements, an Assembly Bill would only be able to deal with the necessary administrative arrangements in relation to Wales, but not the wider Welsh zone.”<sup>20</sup>

## Bil Pysgodfeydd i Gymru

**23.** Wrth ymateb<sup>21</sup> i'n hadroddiad ar Fil 2017-19, dywedodd y Gweinidog wrthym:

---

<sup>18</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [34]

<sup>19</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [4] Hefyd, gweler Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 51

<sup>20</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [6] Hefyd, gweler Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraffau 52 i 55

<sup>21</sup> Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2019

“Gwelaf fod y darpariaethau ar gyfer Cymru, nad ydynt yn gysylltiedig â'r fframwaith cyffredin, yn rhai trosiannol yn amodol ar gyflwyno Bil Pysgodfeydd Cymru ar yr adeg briodol sy'n gallu cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i Gymru a'r parth Cymreig a chychod pysgota Cymru y tu hwnt i'r parth hwnnw (...)

O ran Bil Pysgodfeydd Cymru, mae'n debygol y bydd angen inni wneud rhag o ddarpariaethau ar gyfer pysgodfeydd mewn Deddf Gymreig ar ryw adeg. Mae angen y pwerau yr ydym yn eu ceisio yn y Bil Pysgodfeydd hwn yn y DU cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod pysgodfeydd Cymru yn gweithredu mor effeithiol â phosibl. Fodd bynnag, nes bod Bil Pysgodfeydd y DU wedi cwblhau ei daith drwy Senedd y DU mae'n anodd ymrwymo i amserlen. Rydym yn dibynnu ar nifer o ddarpariaethau, ac yn arbennig ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.”<sup>22</sup>

**24.** Yn ystod ein cyfarfod ar 16 Mawrth 2020, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog a fyddai modd iddi roi unrhyw eglurder ynghylch yr amserlen ar gyfer cyflwyno Bil Pysgodfeydd i Gymru. Dywedodd y Gweinidog:

“No, not at the present time. But we've been out to consultation on 'Brexit and our seas'. As I said, I'll be bringing forward a written statement in the near future around that. What we want to do is have our own future fisheries policy, and, whilst we've said there will be a fisheries Bill next term in the Assembly, I'm not able to commit in the way that I am with the agricultural Bill, because we know that will be in the first year of the next Assembly.”<sup>23</sup>

**25.** Yn ogystal, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog a fyddai'r Bil yn llesteirio gallu Llywodraeth Cymru i ddeddfu yn y maes hwn yn y dyfodol. Dywedodd y Gweinidog wrthym mai ei dealltwriaeth hi oedd nad oedd hyn yn wir.<sup>24</sup>

**26.** Ar 1 Mai 2020, yn dilyn ei hymddangosiad gerbron y Pwyllgor ar 16 Mawrth, ysgrifennodd y Gweinidog atom mewn perthynas â nifer o faterion, gan gynnwys y mater o gyflwyno Bil Pysgodfeydd i Gymru yn y dyfodol. Dywedodd y Gweinidog:

---

<sup>22</sup> Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2019

<sup>23</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [42]

<sup>24</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [47]

“Ar yr adeg hon, er gwaethaf fy ymrwymiad i gyflwyno Bil Pysgodfeydd i Gymru yn ystod tymor nesaf y Senedd, ni allaf warantu pryd y caiff y Bil ei gynnwys yn Rhaglen Ddeddfwriaethol y Senedd...”<sup>25</sup>

## Darpariaethau machlud

**27.** Roedd Argymhelliad 3 yn ein hadroddiad<sup>26</sup> ar Fil 2017-19 yn datgan y dylai'r Gweinidog geisio sicrhau gwelliant at ddibenion mewnosod cymal machlud er mwyn sicrhau bod eglurder yn y dyfodol ynghylch cymhwyso deddfwriaeth sylfaenol ar bysgodfeydd yng Nghymru.

**28.** Gwrthododd y Gweinidog yr argymhelliad hwnnw. Yn ei hymateb, dywedodd:

“Fy safbwynt o hyd felly yw nad yw'n briodol cynnwys cymal machlud yn y Bil (o gofio'r ansicrwydd presennol ynglŷn â rheoli pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol) ond rwy'n ailddatgan fy ymrwymiad i gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer Cymru cyn gynted â phosibl.”<sup>27</sup>

**29.** Nid yw'r Bil yn cynnwys darpariaethau a fyddai'n cael effaith 'machlud' ar gymhwyso'r Bil yng Nghymru neu'r pwerau gwneud rheoliadau sydd ar gael i Weinidogion Cymru. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog a oedd hi wedi ystyried, neu a oedd hi wrthi'n ystyried, y cam o gynnwys darpariaethau machlud o'r fath yn y Bil. Dywedodd y Gweinidog:

“Not at the moment, because I don't have a timeline for the Welsh fisheries Bill. (...) obviously in the agriculture Bill we have a sunset clause, because I've got a timeline...”

We did consider it, but that was the decision we took. We can revisit.”<sup>28</sup>

**30.** Dywedodd un o'r swyddogion a ddaeth i'r Pwyllgor gyda'r Gweinidog:

“We can certainly look at it again, but our view was that having the sunset clause without knowing exactly where the fisheries Bill would

---

<sup>25</sup> Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 1 Mai 2020

<sup>26</sup> Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Pysgodfeydd, argymhelliad 3

<sup>27</sup> Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2019

<sup>28</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [80]

be in the Welsh Government and the Assembly's timetable might make that sunset clause slightly difficult for us."<sup>29</sup>

**31.** Yn ein sesiwn graffu ddiweddarach gyda'r Gweinidog ar Fil Amaethyddiaeth Llywodraeth y DU ar gyfer 2019-21,<sup>30</sup> gwnaethom ofyn pam y cafodd cymal machlud ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth honno ond nid yn y Bil yn ymwneud â physgodfeydd. O ran safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth, eglurodd y Gweinidog: "I suppose because we felt that we were so much more further forward. We thought that hopefully, that would remove the doubt that we would be having that Bill by the end of 2024".<sup>31</sup> Ychwanegodd: "...we're nowhere near along the line of development for the future fisheries policy".<sup>32</sup>

**32.** Yn ei llythyr dyddiedig 1 Mai 2020, ysgrifennodd y Gweinidog:

"Dywedais y byddwn yn ailystyried a ddylai'r Bil gynnwys darpariaethau machlud mewn perthynas â'r darpariaethau i Gymru.

Mae fy safbwynt yn glir. Ystyriaf mai darpariaethau dros dro yw'r darpariaethau hynny i Gymru nad ydynt yn ymwneud â'r fframwaith cyffredin, nes y cyflwynir Bil Pysgodfeydd i Gymru ar yr adeg briodol.

Rydym yn gweithio i gyflwyno Polisi ar Ddyfodol Pysgodfeydd sy'n addas at y diben ac mae angen gwneud hyn o fewn amserlenni rhesymol sy'n ein galluogi i fyfyrion ar ganlyniadau Brexit a'r effaith ar ein diwydiant. Mae'r effeithiau yn cael eu gwaethygu nawr gan argyfwng COVID-19. Mae'r angen i ymateb i'r sefyllfa ddigynsail hon yn dangos pam mae angen i ni gadw ein pwerau cyfreithiol yn hyblyg, o ystyried yr angen i ymateb i flaenoriaethau newidiol ac i roi ffocws newydd ar adnoddau yn unol â hynny.

(...) nid wyf am greu risg y caiff pwerau allweddol y gall fod eu hangen arnom yn y dyfodol eu colli drwy gynnwys darpariaethau machlud ym Mil y DU."<sup>33</sup>

---

<sup>29</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [81]

<sup>30</sup> Bil Amaethyddiaeth 2019-21 [HC Bill 7]

<sup>31</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [100]

<sup>32</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [141]

<sup>33</sup> Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 1 Mai 2020

---

## Cymal 23 - Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd pysgota

### Anghytuno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU

---

**33.** Mae cymal 23 o'r Bil yn darparu mai'r Ysgrifennydd Gwladol fydd yn pennu cyfanswm cyfleoedd pysgota'r DU o ran uchafswm y pysgod môr a'r nifer mwyaf o ddyddiau y caiff cychod pysgota o Brydain eu treulio ar y môr. Dim ond at ddibenion cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol i bennu cyfleoedd pysgota yn y Deyrnas Unedig y gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud hynny.

**34.** Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn datgan:

“Mae Cymal 23 yn rhoi pŵer eang i'r Ysgrifennydd Gwladol osod cwotâu ar gyfer y DU, a ellid fel y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd fod yn berthnasol i stociau rhywogaethau pysgod sy'n gyfan gwbl o fewn dyfroedd un o'r gweinyddiaethau datganoledig yn unig. Mewn perthynas â'r cwota ymdrech, mae cymal 23(8) yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i bennu nifer y dyddiau y tybir bod cwch wedi'i dreulio ar y môr.”<sup>34</sup>

**35.** Nid oedd Llywodraeth Cymru yn fodlon â'r modd y drafftiodd y cymal cyfatebol, sef cymal 18, ym Mil 2017-19.<sup>35</sup>

**36.** Yn ein hadroddiad ar Fil 2017-19, gwnaethom argymhell bod y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wneir o ran datrys pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch cymal 18 o'r Bil. Yn benodol, gwnaethom argymhell bod y wybodaeth hon yn cynnwys esboniad o ran p'un a yw'r cytundeb rhynglywodraethol y cyfeirir ato gan y Gweinidog yn debygol o gael ei roi ar waith ac, os felly, a fyddai'n caniatáu i Weinidogion y DU weithredu mewn meysydd datganoledig heb unrhyw waith craffu gan y Senedd.<sup>36</sup>

**37.** Derbyniodd y Gweinidog yr argymhelliad hwn, ond ni wnaeth unrhyw sylwadau ynghylch a fyddai'r cytundeb rhynglywodraethol yn caniatáu i Weinidogion y DU weithredu mewn meysydd datganoledig, a hynny heb rôl i'r

---

<sup>34</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 29

<sup>35</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, y Bil Pysgodfeydd, Tachwedd 2018, paragraffau 25 a 40; a Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 2), y Bil Pysgodfeydd, Ionawr 2019, paragraffau 12-13

<sup>36</sup> Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Pysgodfeydd, argymhelliad 4



Senedd. Nid yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil cyfredol yn mynd i'r afael â'r pwynt hwn chwaith.

**38.** Yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar Fil 2017-19, nododd y Gweinidog y byddai'n rhannu canlyniadau'r trafodaethau a gynhelir â Llywodraeth y DU ynghylch y modd y bwriedir defnyddio'r pŵer yng nghymal 18 a'r prosesau ymgynghori mwy cadarn, a hynny cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad.<sup>37</sup>

**39.** Hyd y gwyddom, ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth bellach i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig nac i'r Senedd yn ei chyfanrwydd, ac nid yw'r wybodaeth berthnasol wedi'i chynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

**40.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog amlinellu natur yr anghytuno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymal 23. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod trafodaethau yn parhau, gan ychwanegu:

“I've also written to the Secretary of State, and I understand that the letter is with him now for consideration. Of course, we recognise the conducting of international negotiations is a reserved matter, but the implementation of those international obligations, if they're related to a devolved area of the Assembly—which, obviously, fisheries is—is a matter, I think, for us and for the Assembly. So, our concerns centre around the very broad way in which this power is written. I suppose one example is that, the way it's currently drafted, the Secretary of State could make a decision about Cardigan bay scallops, for instance. Again, in discussions with officials and at a ministerial level, I don't think it's the intention of the UK Government to use them in that way, of course, but who knows what a different Government could do in the future?”  
(...) The UK Government is firmly of the belief that it's a reserved matter and we remain of the view that consent is required.”<sup>38</sup>

---

<sup>37</sup> Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2019

<sup>38</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [8]

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a mecanwaith datrys anghydfodau

---

**41.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pa gamau a gymerwyd gyda Llywodraeth y DU i ddatrys yr anghytuno ynghylch cymal 23 o'r Bil cyfredol. Dywedodd y Gweinidog:

“So, I've reached an agreement with the UK Government to set out in the UK fisheries framework memorandum of understanding more detail on the intended use of the power within clause 23 and what the strengthened consultation processes are. Officials continue to work on this, and, as I say, I have written to George Eustice and I'm expecting a response, which I'll be very happy to share with the committee.”<sup>39</sup>

**42.** Yn ystod y sesiwn graffu, gwnaethom hefyd ofyn i'r Gweinidog am fanylion pellach ynghylch pam y bydd y memorandwm yn “cadarnhau ac yn gwella”<sup>40</sup> arferion gwaith rhynglywodraethol. Dywedodd y Gweinidog:

“I suppose the reason for that is the inter-governmental working arrangements we've had over many, many years in relation to fisheries, which I just referred to—a fisheries council every December. That's why we use those words, because it's based on very constructive and well-established inter-governmental arrangements.”<sup>41</sup>

**43.** Mewn perthynas â'r potensial ar gyfer mecanwaith datrys anghydfodau, dywedodd un o swyddogion y Gweinidog:

“...we're still considering whether there will be a dispute resolution within the MOU itself or will it be part of the broader dispute-resolution mechanisms that are being put in place between Welsh Government and UK Government and the Department for Environment, Food and Rural Affairs in particular. So, that's still up for discussion, but we're clear that there needs to be a robust dispute-resolution mechanism in place to allow us to work through that.”<sup>42</sup>

---

<sup>39</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [9]

<sup>40</sup> Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2019

<sup>41</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [57] Gweler hefyd [52] a [55].

<sup>42</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [14]

---

**44.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog a oedd y memorandwm cyd-ddealltwriaeth wedi'i ddrafftio. Dywedodd wrthym fod y ddogfen yn parhau i gael ei thrafod a'i drafftio, ond cadarnhaodd y byddai'n cael ei chreu yn y pen draw.<sup>43</sup>

**45.** Gwnaethom nodi pwysigrwydd y memorandwm cyd-ddealltwriaeth o ran y broses ffurfiol ar gyfer rhoi cydsyniad deddfwriaethol, a gwnaethom ofyn i'r Gweinidog a fyddai'r Senedd yn cael cyfle i weld y memorandwm cyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynnig cydsyniad ar gyfer y Bil. Dywedodd y Gweinidog:

"I certainly can't share it at the moment because it's being drafted. We're going to lay it before the end of the implementation period."<sup>44</sup>

**46.** Ychwanegodd un o swyddogion y Gweinidog:

"We're anticipating that the MOU will be drafted by the end of the year, so it's unlikely to be before the LCM is laid. I think the assurances that the Minister has sought from the Secretary of State around clause 23—we'll be able to share those reassurances that we'll hopefully have secured."<sup>45</sup>

**47.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog a oedd cymal 23, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, yn llinell goch i Lywodraeth Cymru. Cadarnhaodd y Gweinidog ei fod, gan ddweud:

"So, yes, it is, and I've said that I could only recommend [consent] if we sort this issue out. But I am confident that the MOU will be in place by the end of the implementation period. If I've got what we want in the MOU, and we've got that necessary reassurance in place, then I would be happy to recommend it."<sup>46</sup>

**48.** Yn ogystal, dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn hyderus y byddai'r Bil yn destun diwygiadau a fyddai'n mynd i'r afael â gwrthwynebiadau a phryderon Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chymal 23.<sup>47</sup>

---

<sup>43</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [11]

<sup>44</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [63]

<sup>45</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [64]

<sup>46</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [16]

<sup>47</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [17-18]

**49.** Yn y llythyr a anfonwyd atom gan y Gweinidog yn sgil ein sesiwn graffu ar 16 Mawrth, sef y llythyr dyddiedig 1 Mai 2020, ceisiodd y Gweinidog roi eglurder ynghylch rhan o'r drafodaeth a gawsom ar gymal 23 a'r mecanwaith datrys anghydfodau. Mewn perthynas â chymal 23, dywedodd y Gweinidog:

"Yn ystod y broses graffu, gofynnwyd i mi a fyddai diwygiadau yn cael eu gwneud i'r Bil mewn perthynas â'r pryderon a fynegwyd gennyf yn flaenorol ynghylch cymal 23. Hoffwn egluro nad ydym yn ceisio unrhyw ddiwygiadau.

Erys hwn yn fater llinell goch i mi am ei fod yn hollbwysig bod y pŵer hwn yn cael ei arfer mewn ffordd sy'n parchu'r setliad datganoli. Rwyf wedi dod i gytundeb â Llywodraeth y DU i nodi ym Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Fframwaith Pysgodfeydd y DU, neu lwybr amgen os byddwn ein dwy yn cytuno ei fod yn fwy addas, fwy o fanylion am y defnydd bwriadedig o'r pŵer yng nghymal 23 a fydd yn cynnwys atgyfnerthu prosesau ymgynghori. Rwyf wedi atodi llythyr gan Victoria Prentis AS sy'n ailgadarnhau'r ymrwymiad hwn.

Disgwylwch y bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith erbyn diwedd y Cyfnod Gweithredu ac mae fy swyddogion yn cydweithio'n agos â Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i ddatblygu pob elfen o'r Fframwaith. Mae'r ffordd gydweithredol a pharchus y mae pob un o bedair gweinyddiaeth y DU yn cydweithio i gyflwyno Fframwaith Pysgodfeydd y DU yn gysur mawr i mi."<sup>48</sup>

**50.** Yn ei llythyr, dywedodd Victoria Prentis AS, yr Ysgrifennydd Gwladol Seneddol:

"...as officials have discussed, the power set out in clause 23, which allows for the Secretary of State to determine fishing opportunities for the UK, is not a devolved matter. The determination of the UK quota cannot, by its nature, be a devolved function and is therefore a function of the Secretary of State. We agree that the implementation of the UK's international obligations is a devolved matter: managing the share of the UK's fishing opportunities allocated to Welsh Ministers in accordance with the UK's international obligations is of course a matter for Wales.

---

<sup>48</sup> Llythyr gan y Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 1 Mai 2020

Clause 24 of the Bill obliges the Secretary of State to consult all Administrations before making or withdrawing a determination under clause 23. That said, I am happy to make clear through the MoU, or another route if we both agree that is more suitable, the commitment you previously received that we will set out the circumstances in which the power under Clause 23 will be exercised, and how consultation provisions could be strengthened beyond those set out in the Bill.”<sup>49</sup>

**51.** O ran y mecanwaith datrys anghydfodau, mae'r Gweinidog yn dweud yn ei llythyr dyddiedig 1 Mai 2020:

“Trafodwyd mecanweithiau datrys anghydfodau ac rwyf bob amser wedi dadlau pa mor bwysig ydyw bod trefniadau datrys anghydfodau digonol ar waith. Hoffwn roi sicrwydd i chi ynghylch y mater hwn. Mae prosesau osgoi anghydfodau sefydledig sy'n gysylltiedig â strwythurau lefel portffolio eisoes ar waith. Fe'u gweithredir drwy'r Bwrdd Rhaglen Uwch swyddogion a, lle y mae angen eu huwchgyfeirio i Weinidogion, drwy'r Grŵp Rhyngweinidogol - Yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Materion Gwledig.

Cwmpesir hefyd y trefniadau manwl ar gyfer llywodraethu pysgodfeydd, gan gynnwys gwneud penderfyniadau, osgoi anghydfodau a datrys anghydfodau, a chaiff trefniadau presennol eu hatgyfnerthu drwy ddatblygu Fframwaith Pysgodfeydd y DU. Mae hyn yn rhan o ddull Fframweithiau Cyffredin y DU, a gefnogir gan bob un o'r gweinyddiaethau pysgodfeydd.

Mae gan y gweinyddiaethau pysgodfeydd hanes da o gydweithio'n agos i ddatblygu polisiau rheoli pysgodfeydd a datrys anghydfodau. Yn ogystal â'r cyswllt rheolaidd sydd rhyngddynt â Gweinidogion a swyddogion, mae'r pedair gweinyddiaeth pysgodfeydd wedi llofnodi Concordat 2012 ar 'Drefniadau Rheoli Cyfleoedd Pysgota a Thrwyddedu Cychod Pysgota yn y Deyrnas Unedig', sy'n nodi ffyrdd o weithio.

Felly, ystyrir nad oes angen cynnwys unrhyw brosesau ychwanegol ym Mil Pysgodfeydd y DU. Hefyd, o ystyried bodolaeth Fframwaith ehangach y DU sy'n arwain at Gydbwyllgor y Gweinidogion, byddai'n

---

<sup>49</sup> Llythyr gan y Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 1 Mai 2020, Atodiad

amhriodol cyflwyno deddfwriaeth sy'n mynd i'r afael â'r broses o ddatrys anghydfodau ar gyfer polisiau pysgodfeydd yn unig.”<sup>50</sup>

Y berthynas rhwng cymal 23 a chymal 4

---

**52.** Mae cymal 4 yn darparu ar gyfer datganiad pysgodfeydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â swyddogaethau o dan gymal 23 o'r Bil. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi bod cymal 4 yn un o'r darpariaethau yn y Bil nad oes angen cydsyniad ar ei gyfer. Dywedodd y Gweinidog:

“I can understand the link between clause 4 and clause 23, but there's much less in clause 4. That's in relation to the Secretary of State's fisheries statement and concerns the setting of policies on how they'll meet the UK fishing objectives, and it's not our view that this specific provision requires consent. So, there's a contrast—. Clause 23—the Secretary of State will be exercising a function more operational in nature. Under clause 4, he would be setting the UK Government policy, which will outline how he then exercises the UK quotas under clause 23.”<sup>51</sup>

## Pwerau dirprwyedig a gwneud rheoliadau a osodir gerbron y Senedd

Cyffredinol

---

**53.** Mae'r Bil yn cynnwys naw darpariaeth sy'n rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru. Fel y crybwyllwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn datgan:

“Mae'r Bil hefyd, ar gais Llywodraeth Cymru, yn cynnwys pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru.”<sup>52</sup>

**54.** Fodd bynnag, nid oes llawer o fanylion yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i esbonio diben y pwerau hyn a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael. Gofynnwyd i'r Gweinidog pam mae angen y pwerau hyn. Dywedodd y Gweinidog:

“We've considered the scope of delegated powers very carefully. We've got to balance the powers to be broad enough to allow fisheries

---

<sup>50</sup> Llythyr gan y Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 1 Mai 2020

<sup>51</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [20]

<sup>52</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 6

---

administrations to act very quickly. We need to be very responsive, I think, at all times in relation to our fisheries. We need to be able to respond to scientific advice very quickly. You'll be aware the delegated powers cover a range of areas, all of which are designed to enable us to do that, to effectively manage our fisheries, going forward.

Setting detail in the Bill on the devolved areas I don't think would be appropriate or very useful, really, in the event that we need to react quickly or respond to any unforeseen circumstances. I will be providing adequate opportunity for scrutiny of these provisions."<sup>53</sup>

**55.** Gofynnwyd hefyd i'r Gweinidog amlinellu'r ddarpariaeth y bydd yn ceisio ei gwneud mewn rheoliadau gan ddefnyddio'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, a phryd y byddai rheoliadau o'r fath yn cael eu gosod. Dywedodd y Gweinidog y canlynol wrthym:

"I think it's probably a bit too early to say. I suppose I can give you an example in relation to Schedule 5, the detail of any future arrangements are yet to be determined, for example, but we wanted to secure that as an enabling power that is equivalent to the power secured for the Secretary of State so that we can ensure the most appropriate use of any fishing opportunities, for example. So, again, I just wanted to reassure Members that any consultation process would be open and transparent."<sup>54</sup>

Yr Ysgrifennydd Gwladol yn ceisio cydsyniad Gweinidogion Cymru o dan y Bil

---

**56.** Cyn gwneud rheoliadau, bydd yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, mewn nifer o amgylchiadau, ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru.<sup>55</sup> Mae'r rhain yn ymwneud â'r pwerau i gymryd y camau a ganlyn:

- ychwanegu, dileu neu amrywio eithriadau i'r gwaharddiad ar bysgota didrwydded (cymal 14 (3));

---

<sup>53</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [67] a [68]

<sup>54</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [70]

<sup>55</sup> Mewn amgylchiadau eraill, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, cyn gwneud rheoliadau, yn ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Mae'r rhain yn ymwneud â'r pwerau i bennu cyfleoedd pysgota'r DU (cymalau 23 a 24).

---

- creu, ychwanegu, dileu neu amrywio eithriadau i'r gwaharddiad ar bysgota didrwydded gan gwch pysgota tramor (cymalau 16(3) a 17(3));
- diwygio cyfraith y DU at ddibenion pysgodfeydd rhestredig ac mewn perthynas â materion pysgodfeydd rhestredig (cymal 36);
- gwneud darpariaeth ar gyfer monitro, rheoli neu atal clefydau pysgod neu anifeiliaid dyfrol eraill (cymal 38).

**57.** Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd Gweinidogion Cymru yn bwriadu ceisio cydsyniad y Senedd cyn rhoi eu cydsyniad yn yr amgylchiadau hyn. Gofynnwyd hefyd i'r Gweinidog a fyddai Gweinidogion Cymru'n hysbysu'r Senedd yn ffurfiol pan fydd cydsyniad wedi'i roi, yn unol â phroses Rheol Sefydlog 30C. Dywedodd y Gweinidog y canlynol wrthym:

“Again, these are technical issues, so what I will do is follow the practice that I did in January when I wrote<sup>56</sup>... in relation to the devolved areas made by UK Ministers under the direct payment to farmers, I did the SI, so I'll follow the same practice.”<sup>57</sup>

#### Arfer pwerau cydredol

---

**58.** Mae'r Bil hwn, fel gyda rhai Biliau ac offerynnau statudol eraill y DU sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE, yn creu pwerau cydredol i'w harfer gan Weinidogion Cymru a'r DU. Fel y cydnabuwyd gan Lywodraeth Cymru<sup>58</sup>, mae'n bosibl y bydd effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd oherwydd bod perygl y gallai dileu swyddogaethau o'r fath mewn un o Ddeddfau'r Senedd yn y dyfodol sbarduno'r gofynion cydsynio yn Atodlen 7B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006). Rydym wedi codi'r mater hwn gyda Llywodraeth Cymru ar sawl achlysur, ac rydym yn ymwybodol bod Gorchymyn sydd i'w wneud o dan adran 109 o Ddeddf 2006 yn cael ei ddrafftio a ddylai fynd i'r afael â'r mater cyffredinol.

**59.** Yn ei llythyr at y Gweinidog, dywedodd Victoria prentis AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol:

“I am aware that officials in the Welsh Office have shared drafting responsibilities of the section 109 GoWA Order with your officials, and

---

<sup>56</sup> [Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig](#), 31 Ionawr 2020

<sup>57</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [76]

<sup>58</sup> Gweler, er enghraifft: [Llythyr gan y Trefnydd, 11 Tachwedd 2019](#); [Llythyr gan y Trefnydd, 17 Rhagfyr 2019](#); [Llythyr gan Brif Weinidog Cymru, 12 Chwefror 2020](#)



that this work is at an advanced stage. The Government is clear that the consent requirements will not apply should the Assembly decide to remove the concurrent powers in the Fisheries Bill from Ministers of the Crown in future. As such I am assured that this matter is close to resolution and will not require an amendment to the Bill.”<sup>59</sup>

### Atodlen 3 – Trwyddedau Pysgota Môr: darpariaeth bellach

---

**60.** Mae Atodlen 3, fel y'i cyflwynir gan gymal 18 (darpariaeth bellach ynghylch trwyddedau), yn darparu i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch y modd y dylai swyddogaethau trwyddedu awdurdod trwyddedu pysgod môr gael eu harfer, ac ynghylch yr amser pan fo trwydded neu agweddau ar y drwydded yn cael effaith. Mae enghreifftiau o'r ddarpariaeth y gellir ei gwneud mewn rheoliadau wedi'u cynnwys yn Atodlen 3, ac mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno dogfennau a chyhoeddi hysbysiadau a chodi taliadau. Yn ogystal, rhaid i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch yr egwyddorion sydd i'w cymhwyso gan awdurdod trwyddedu pysgod môr wrth arfer ei swyddogaethau.

**61.** Mae rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, oni bai eu bod yn darparu ar gyfer egwyddor o leihau'r amser y mae cychod pysgota yn ei dreulio ar y môr yn ystod unrhyw gyfnod o gymharu â'r amser a dreuliwyd yn ystod cyfnod blaenorol penodedig. Yn yr achos hwnnw, byddai'r weithdrefn gadarnhaol yn gymwys.

**62.** O dan Atodlen 3, caiff awdurdod trwyddedu pysgod môr, wrth ganiatáu trwydded bysgota môr, atodi i'r drwydded unrhyw amodau sy'n ymddangos yn angenrheidiol ac yn hwylus ar gyfer rheoleiddio pysgota môr. Gall amodau o'r fath gynnwys amodau o ran glanio pysgod, y defnydd y gellir ei wneud o bysgod sy'n cael eu dal, cyfyngu ar yr amser y caiff cwch pysgota ei dreulio ar y môr, neu amodau a osodir fel arall at ddibenion gwarchod neu wella'r amgylchedd morol a dyfrol. Caiff awdurdod trwyddedu pysgod môr hefyd amrywio trwyddedau, ychwanegu, dileu neu amrywio amodau sydd ynghlwm wrth drwyddedau, neu, o dan amgylchiadau penodedig, atal neu ddirymu trwydded.

**63.** Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai'n gallu esbonio o dan ba amgylchiadau y byddai'n angenrheidiol ac yn hwylus, yn ei barn hi, i arfer y pwerau a roddwyd i

---

<sup>59</sup> Llythyr gan y Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 1 Mai 2020, Atodiad

Weinidogion Cymru fel awdurdod trwyddedu pysgod môr. Dywedodd y Gweinidog:

“I think these are really important powers because, sometimes, you need to quickly respond to close a specific area of fisheries, for example. It’s much quicker to have a variation of the licence rather than to use statutory instruments. I know it’s been done in Scotland recently in relation to juvenile fish. So, it’s a really important power.”<sup>60</sup>

## Pwerau Atodlen 9

---

**64.** Mae Atodlen 9 i’r Bil yn mewnosod adran 134A newydd yn *Neddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir 2009* (“Deddf 2009”). Mae’r adran hon yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion sy’n ymwneud â chamddefnyddio adnoddau pysgodfeydd môr at ddibenion gwarchod planhigion neu anifeiliaid morol, neu gynefinoedd morol yng Nghymru. Mewnosodir ail adran (adran 134B) hefyd yn Neddf 2009, sy’n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud Gorchmynion sy’n ymwneud â rhanbarth môr mawr Cymru at ddibenion gwarchod planhigion neu anifeiliaid morol, cynefinoedd morol neu nodweddion o ddiddordeb geomorffolegol neu ddaearegol yng Nghymru.

**65.** Mae’r darpariaethau hyn yn ehangu’r pwerau presennol i wneud gorchymyn o dan adran 134 o Ddeddf 2009. Yn benodol, byddai’r darpariaethau newydd hyn yn galluogi cyflwyno gorchymyn at y diben hwn ar gyfer unrhyw ardal yng Nghymru neu ranbarth môr mawr Cymru. Yn flaenorol, roedd adran 134 o Ddeddf 2009 dim ond yn berthnasol i barthau cadwraeth morol, y mae un ohonynt yng Nghymru ar hyn o bryd. Nid yw’r pwerau i wneud gorchymyn sydd i’w harfer gan Weinidogion Cymru o dan Adran 134 yn arferadwy drwy offeryn statudol (yn unol ag adran 316(4)(a) o Ddeddf 2009, fel y’i diwygiwyd). Fel y cyfryw, ni fyddai’r Senedd yn craffu’n awtomatig ar unrhyw orchymyn a wneir gan ddibynnu ar y pwerau presennol neu bwerau a ehangwyd.

**66.** Mae Atodlen 9 i’r Bil hefyd yn mewnosod adran 134C yn Neddf 2009, sy’n pennu pa ddarpariaethau y caiff Gweinidogion Cymru eu cynnwys mewn gorchmynion a wneir o dan y pwerau hyn. Mae adran 134C(3)(b) yn darparu ar gyfer darpariaeth sy’n galluogi amodau i gael eu hatodi i drwydded. Nid yw’r Bil yn nodi beth ddylai’r amodau hyn fod, ac nid yw’r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar amodau o’r fath. Nid oes unrhyw ofyniad

---

<sup>60</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [72]

ychwaith i'r amodau a ddefnyddir gael eu nodi yn y gorchmynion a wneir o dan y pwerau hyn.

**67.** Gofynnwyd i'r Gweinidog gadarnhau pam y mae'r pwerau hyn yn angenrheidiol, a sut y bydd hi'n sicrhau bod deddfwriaeth a wneir gan ddibynnu ar y pwerau hyn yn dryloyw ac yn destun gwaith craffu. Dywedodd y Gweinidog:

“This is very technical and, obviously, it's a new power and it does give us the powers to make Orders rather than statutory instruments. I am committed to being very open and transparent around this. It will enable measures to be brought forward for Wales and the Welsh zone. We won't be constrained to just marine conservation zones as now. Again, it's a very important part of the toolkit that we've got to protect our marine environment and manage our fisheries effectively. Any Orders that I bring forward will be subject to consultation—I go back to what I was saying in my previous answer—and we've got to publish notice of any Orders made.”<sup>61</sup>

## Diwygiadau pellach i Fil y DU

**68.** Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi'r canlynol:

“Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU yn ystod taith y Bil ac yn ymwneud yn llwyr â'r Cynulliad drwy'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol.”<sup>62</sup>

**69.** Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai'r amserlen ar gyfer taith y Bil drwy Senedd y DU yn caniatáu digon o amser a chyfle i ofyn i'r Senedd am ei chydysyniad. Dywedodd y Gweinidog y canlynol wrthym:

“Yes. I do think there is sufficient time. Again, I've just mentioned we're working really closely at official level. I'll bring forward a consent motion to the Assembly prior to the last amending stage.”<sup>63</sup>

**70.** Gofynnwyd i'r Gweinidog hefyd a oedd yn ymwybodol o unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol i'r Bil a fyddai'n cael eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU ac a fyddai'n effeithio ar fuddiannau Cymru. Gofynnwyd iddi hefyd a fyddai

---

<sup>61</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [74]

<sup>62</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 59

<sup>63</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [26]

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol yn dilyn wedyn. Dywedodd y Gweinidog:

“There would have to be a supplementary LCM. I think the answer is ‘no’—certainly, no substantive amendments. I suppose there could be a few minor, technical amendments, but we’re not expecting anything substantive.”<sup>64</sup>

## Ein barn ni

- 71.** Fel y nodwyd yn ein hadroddiad diweddar ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amaethyddiaeth y DU, rydym yn cydnabod bod y Bil hwn yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth sylfaenol yng nghyd-destun ymadawriad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.
- 72.** Mewn adroddiad diweddar, argymhellodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol bod “Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i hysbysu'r Senedd pan fydd deddfwriaeth yn gysylltiedig â fframwaith polisi cyffredin y DU gyfan, p'un a yw'r ddeddfwriaeth honno'n cael ei hystyried gan y Senedd Cymru ynteu Senedd y DU”.<sup>65</sup> Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr ymateb hwn “ar y sail bod y cyfeiriad at ‘fframwaith polisi cyffredin y DU gyfan’ yn cyfeirio at y Rhaglen Fframweithiau Cyffredin”.<sup>66</sup>
- 73.** Awgrymodd y Gweinidog fod y darpariaethau angenrheidiol yn y Bil i gyflawni'r amcan o greu fframwaith cyffredin ar gyfer y DU gyfan yn ymwneud ag amcanion pysgodfeydd, y datganiadau ar y cyd a'r cynlluniau rheoli pysgodfeydd, a mynediad a thrwyddedu. Os yw hyn yn wir, mae'n ymddangos mai dim ond hanner y darpariaethau yn y Bil sydd eu hangen er mwyn cyflawni fframwaith cyffredin ar gyfer sector pysgodfeydd y DU o ganlyniad i ymadawriad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Gweinidog, fel mater o frys a chyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil, egluro a chadarnhau pa ddarpariaethau penodol yn y Bil sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r nod a

---

<sup>64</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mawrth 2020, Cofnod y Trafodion, [40]

<sup>65</sup> Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol [Fframweithiau polisi cyffredin: Gwaith craffu gan y Cynulliad](#), Rhagfyr 2019, argymhelliad 1.

<sup>66</sup> [Llythyr gan Jeremy Miles AS, Cwnsler Cyffredinol David Rees AS, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol](#), 23 Ionawr 2020

ddymunir, sef cael fframwaith cyffredin deddfwriaethol ar gyfer y DU gyfan ym maes pysgodfeydd.

**74.** Os yw'r Gweinidog yn fodlon mai'r unig ddarpariaethau yn y Bil sy'n angenrheidiol ar gyfer fframwaith cyffredin yw'r darpariaethau sy'n ymwneud ag amcanion pysgodfeydd, y datganiadau pysgodfeydd ar y cyd a'r cynlluniau rheoli pysgodfeydd, a mynediad a thrwyddedu, nid yw'n glir pam nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ei Bil ei hun i wneud darpariaeth deddfwriaethol ar gyfer yr agweddau eraill a gwmpesir gan y Bil.

**75.** Wrth wneud y pwynt hwn, rydym yn cydnabod bod cymal 43 o'r Bil yn ymestyn cymhwysedd y Senedd mewn perthynas â physgota, pysgodfeydd ac iechyd pysgod, i holl barth Cymru. Er ein bod yn croesawu'r ymestyniad hwn ar gymhwysedd, rydym yn nodi y gellid bod wedi cyflawni estyniad o'r fath hefyd drwy Orchymyn gan Lywodraeth y DU o dan adran 109 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Byddai Gorchymyn adran 109 o'r fath yn destun gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 25, gan gynnwys cael ei gymeradwyo gan y Senedd. Pe baem wedi dilyn y dull gweithredu hwnnw, yn hytrach na defnyddio'r Bil, byddai wedi rhoi rôl ffurfiol i'r Senedd o ran cymeradwyo'r ymestyniad ar gymhwysedd deddfwriaethol, a byddai hefyd, o bosibl, wedi sicrhau bod y pwerau ar gael yn gynt. Yn ei dro, gallai hyn fod wedi galluogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu'n gynt ei pholisi pysgodfeydd i Gymru a Bil i Gymru.

**76.** Yn ein hadroddiad ar Fil 2017-19, gwnaethom nodi, er bod diffyg eglurder ynghylch a oedd sicrwydd y byddai Llywodraeth Cymru yn datblygu ei Bil ei hun, dywedodd y Gweinidog ei bod hi'n bwriadu cyflwyno Bil o'r fath yn ystod tymor y Senedd hon, h.y. cyn mis Mai 2021.

**77.** Rydym yn nodi llythyr y Gweinidog ar 1 Mai 2020, lle y dywedodd ei bod yn gweithio i ddarparu polisi ar ddyfodol pysgodfeydd sy'n addas i'r diben o fewn amserlen resymol, sy'n adlewyrchu effaith Brexit ar ein diwydiant a'r ffaith bod yr effeithiau hynny bellach yn cael eu dwysáu gan argyfwng iechyd cyhoeddus COVID-19.

**78.** Serch hynny, credwn y dylai rhanddeiliaid gael rhywfaint o sicrwydd ynghylch amseriad tebygol polisi pysgodfeydd i Gymru a Bil priodol i Gymru. Mewn perthynas â Bil amaethyddiaeth, nodwn fod y Gweinidog wedi awgrymu 2021 fel dyddiad cyflwyno yn y Chweched Senedd (gan gydnabod y byddai Llywodraeth newydd bryd hynny).

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Gweinidog, cyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil, egluro:

- sut a pham y mae Bil Pysgodfeydd Cymru wedi cael ei ohirio tan amser anhysbys yn y dyfodol, pan mai safbwynt Llywodraeth Cymru y llynedd oedd y byddai Bil o'r fath yn cael ei gyflwyno o fewn y 12 mis nesaf;
- pa mor hir y byddai'n cymryd i baratoi Bil Pysgodfeydd i Gymru.

**79.** Cododd ein hadroddiad ar Fil 2017-19 ddau fater arall yr hoffem dynnu sylw atynt.

**80.** Yn gyntaf, os bwriedir i'r Bil ar gyfer y DU gyfan fod yn fframwaith deddfwriaethol ar gyfer dull cyffredin ledled y DU o fynd i'r afael â pholisi pysgodfeydd, mae'n parhau i fod yn aneglur sut y bydd polisiau sy'n benodol i Gymru ac sydd i'w gweld mewn Bil i Gymru yn gweithio o fewn y fframwaith cyffredin hwnnw.

**81.** Yn ail, o ystyried mai bwriad Llywodraeth Cymru yw cyflwyno ei deddfwriaeth pysgodfeydd ei hun, mae'n parhau i fod yn aneglur pam nad yw'r Gweinidog wedi ceisio cynnwys cymal machlud yn y Bil. Ni welwn unrhyw reswm pam na ddylai'r cymalau yn y Bil sy'n berthnasol i Gymru ddod i ben ar ddiwedd 2024, yn unol â'r cymal machlud sydd bellach wedi'i gynnwys ym Mil Amaethyddiaeth y DU.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Gweinidog esbonio, cyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil, sut y bydd Bil Pysgodfeydd i Gymru yn y dyfodol yn gweithio o fewn fframwaith pysgodfeydd cyffredin ar gyfer y DU gyfan.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Gweinidog:

- geisio diwygio'r Bil er mwyn mewnosod darpariaeth sy'n cael effaith 'machlud' ar y cymalau yn y Bil sy'n berthnasol i Gymru, a hynny erbyn 2024, er mwyn sicrhau bod eglurder yn y dyfodol ynghylch cymhwyso deddfwriaeth sylfaenol ar bysgodfeydd yng Nghymru;
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch unrhyw ddiwygiad o'r fath.

**82.** Mae'n siomedig nad yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cynnwys unrhyw wybodaeth am y memorandwm cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â'r fframwaith pysgodfeydd, yn enwedig gan ein bod yn ymwybodol bod trafodaethau ar ddogfen gytundeb o'r fath wedi bod yn mynd rhagddynt ers i ni graffu ar Fil 2017-19.

**83.** Mae'n ymddangos bod yr angen am y memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn yn hanfodol i drafodaethau'r Gweinidog â Llywodraeth y DU o ran ei defnydd

arfaethedig o'r pwerau yng nghymal 23. Rydym yn pryderu ynghylch y mater hwn am dri rheswm.

**84.** Yn gyntaf, dywedodd y Gweinidog wrthym fod y Llywodraethau'n gweithio i sicrhau bod memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar waith cyn diwedd y cyfnod gweithredu (h.y. erbyn diwedd 2020). Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd gofyn i'r Senedd wneud penderfyniad yn fuan ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil. O ystyried y ffaith bod y memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn ymddangos yn hanfodol i argymhelliad y Gweinidog neu ar gyfer rhoi cydsyniad, ein safbwynt ni yw bod y Senedd o dan anfantais ddifrifol drwy beidio â chael mynediad at fanylion y cytundeb allweddol hwn. Mae hyn yn anfoddhaol.

**85.** Yn ail, nid ydym yn credu bod datblygu memoranda cyd-ddealltwriaeth neu gytundebau rhynglywodraethol nad ydynt yn rhwymo yn gynigion digonol yn lle cael datrysiad deddfwriaethol i linellau coch y Gweinidog ei hun. Rydym yn pryderu ynglŷn â'r modd y mae'r Gweinidog wedi derbyn a mabwysiadu'r dull hwn, yn enwedig gan fod y Gweinidog ei hun wedi nodi mewn tystiolaeth a roddwyd i ni nad oedd hi, wrth reswm, yn gwybod beth fyddai Llywodraeth y DU yn y dyfodol yn ei wneud â'r pwerau a ddarperir gan gymal 23.

**86.** Yn olaf, rydym yn pryderu ynglŷn â sut y gall unrhyw femoranda cyd-ddealltwriaeth neu gytundebau rhynglywodraethol o'r fath fod yn destun gwaith craffu a goruchwyllo gan y Senedd.

**87.** Fel y nodwyd yn ddiweddar yn ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth, rydym yn cydnabod bod memoranda cyd-ddealltwriaeth o'r fath yn gytundebau rhwng llywodraethau. Fodd bynnag, mae'r cam o ymrwymo iddynt fel ffordd o ddatrys materion o fewn Bil y DU lle mae angen cydsyniad y Senedd, ac yna peidio â sicrhau bod y cytundeb hwnnw ar gael i'r Senedd mewn modd amserol, yn arwain at leihau gallu'r Senedd a'i phwyllgorau i graffu'n llawn ar oblygiadau'r Bil hwnnw.

**88.** Rydym wedi crybwyll sut y gellir ehangu rôl y Senedd o ran craffu ar gytundebau rhynglywodraethol gyda Phrif Weinidog Cymru, ac rydym yn croesawu ei ymrwymiad i ystyried y mater hwn ymhellach. Yn y cyfamser, rydym unwaith eto'n codi'r mater hwn, a'n pryderon yn ei gylch, fel ffordd o dynnu'r mater at sylw'r Senedd.

**89.** Er gwaethaf ein pryderon ynghylch y defnydd o gytundebau rhynglywodraethol, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth ynghylch y

cynnydd sy'n cael ei wneud o ran datblygu'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth, gan gynnwys mecanwaith datrys anghydfodau.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Gweinidog egluro pam ei bod yn briodol gofyn i'r Senedd am ei chydsyniad i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil heb i'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth gael ei gytuno.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Gweinidog ddarparu diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor ynghylch y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cwblhau'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth, gan gynnwys mecanwaith datrys anghydfodau.

**90.** Yn ein hadroddiad ar Fil 2017-19, gwnaethom ddweud na ddylid anwybyddu'r pwerau helaeth i wneud rheoliadau a'r pwerau gweithredol a ddarperir i Weinidogion Cymru yn y Bil hwnnw. Mae gennym yr un farn mewn perthynas â'r pwerau i wneud rheoliadau yn y Bil presennol.

**91.** Felly, mae'n rhwystredig nad yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil hwn yn nodi'n ddigonol y pwerau i wneud rheoliadau sy'n cael eu cymryd, heb sôn am geisio cyfiawnhau pam eu bod yn cael eu cymryd neu'r weithdrefn sy'n gymwys ym mhob achos. Rydym yn ymwybodol y defnyddiwyd dull gwahanol gyda'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth. Er bod Atodiad 1 i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwnnw yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth am y pwerau i wneud rheoliadau, nid yw'n egluro pam y cymerwyd y pwerau nac yn cyfiawnhau'r weithdrefn a ddewiswyd ym mhob achos.

**92.** Yn ein barn ni, byddai wedi bod yn briodol cynnwys rhagor o wybodaeth fanylach am y pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil. Yn fwy cyffredinol, byddai'n arfer da i Lywodraeth Cymru gynnwys y wybodaeth hon yn gyson ar draws ei memoranda cydsyniad deddfwriaethol.

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Gweinidog ddarparu gwybodaeth, naill ai mewn dogfen atodol neu mewn unrhyw Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol, yn cyfiawnhau pam ei bod yn briodol cymryd pob un o'r pwerau i wneud rheoliadau ar gyfer Gweinidogion Cymru sydd wedi'u cynnwys yn y Bil; a nodi'r weithdrefn a ddewiswyd ar gyfer pob pŵer i wneud rheoliadau.

**93.** Yn benodol, o ran y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru o dan Atodlen 3, rydym yn nodi esboniad y Gweinidog ynghylch pam y caiff awdurdod trwyddedu pysgod môr, wrth ganiatáu trwydded bysgota môr, atodi i'r drwydded unrhyw amodau sy'n ymddangos yn angenrheidiol ac yn hwylus ar gyfer rheoleiddio pysgota môr. Fodd bynnag, mae'r mater hwn yn haeddu eglurhad pellach.



**Argymhelliad 8.** Cyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil, dylai'r Gweinidog roi mwy o eglurder ynghylch y pwerau i wneud rheoliadau yn Atodlen 3; yn benodol, dylai nodi o dan ba amgylchiadau y byddai Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ac yn hwylus arfer y pwerau hyn fel awdurdod trwyddedu pysgod môr.

**94.** At hynny, o ran y pwerau i wneud gorchmynion a roddir i Weinidogion Cymru yn Atodlen 9 drwy ddiwygiad i *Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*, nodwn esboniad y Gweinidog ynghylch natur dechnegol y pŵer a phwysigrwydd y pŵer fel rhan o becyn cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelu amgylchedd morol Cymru a rheoli pysgodfeydd Cymru yn effeithiol. Nodwn hefyd ymrwymiad y Gweinidog i fod yn agored ac yn dryloyw wrth arfer y pwerau hyn. Fodd bynnag, mae natur eang y pwerau hyn, a'r diffyg craffu sy'n digwydd am nad yw'r gorchmynion yn cael eu gwneud drwy offerynnau statudol, yn haeddu eglurhad pellach.

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Gweinidog ymrwymo i osod datganiad ysgrifenedig yn rhoi hysbysiad o unrhyw orchymyn perthnasol a wneir o dan adrannau 134A neu 134B o *Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009* er mwyn sicrhau bod y broses yn agored ac yn dryloyw.

**95.** Rydym yn siomedig gyda'r diffyg gwybodaeth yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y rhesymeg a'r broses a ddilynir gan Weinidogion Cymru wrth roi cydsyniad i Lywodraeth y DU weithredu mewn meysydd datganoledig o dan gymalau 14, 16, 17, 36 a 38.

**96.** Rydym wedi galw'n barhaus am weithdrefnau cyfatebol i'r hyn a nodir yn Rheol Sefydlog 30C er mwyn hysbysu'r Senedd o reoliadau a wnaed gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan yr holl Filiau sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE. Rydym yn bwriadu parhau i adolygu'r mater hwn.

**97.** Yn olaf, nodwn fod y Gweinidog wedi awgrymu nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 4 o'r Bil, er gwaethaf ei berthynas â chymal 23, sef cymal y mae'r Gweinidog yn credu bod angen cydsyniad ar ei gyfer. Byddai'n fuddiol pe bai'r Gweinidog yn gallu esbonio'r gwahaniaeth hwn ymhellach.

**Argymhelliad 10.** Cyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil, dylai'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor i egluro pam nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 4 o'r Bil.